Merched y Tab

Dydd Mercher 22 Mehefin
Ymweliad â Llangynwyd gydag Allan James. Cwrdd wrth Eglwys Llangynwyd am 11am.
Cinio / byrbryd i ddilyn yn y Tŷ Cornel.
Judith 01443 218077

Un arall o elusennau'r capel ar gyfer 2016: New Horizons Mental Health Resource Centre, Aberdâr sy'n gweithredu ystod o ganolfannau yn cynnig adnoddau ac yn estyn llaw i bobl gyda phroblemau iechyd meddwl ac emosiynol yn RhCT. Mae'r Ganolfan yn hybu delwedd bositif ac yn herio gwahaniaethu ar sail iechyd drwy gyfrwng addysg, gweithio yn y gymuned, rhannu gwybodaeth, a chynnig cefnogaeth, ac yn cynnal prosiect arbennig i bobl ifanc rhwng 18 a 25.

Mae rhifyn newydd o gylchgrawn **Agora** nawr yn fyw ar wefan
www.cristnogaeth21.cymru

BANC BWYD PONTYCLUN

Os ydych chi'n awyddus i ymuno â'r criw brwdfrydig sy'n helpu gyda chasgliad Tesco ar gyfer y Banc Bwyd, mae'r casgliad nesa dydd Iau, Gwener, Sadwrn, - Mehefin 30, Gorffennaf 1,2. Cysylltwch ag Ann Dwynwen am fwy o wybodaeth: 029 2089 3144
ann.pentyrch@btinternet.com

Y Plant Lleiaf

Byddai'n dda petai'r plant yn gallu eistedd ym mlaen y capel am hanner cyntaf y gwasanaeth - a bydd meinciau addas gael yn fuan. Fodd bynnag, os yw rhieni gyda phlant bach yn eistedd yn y llofft, erfyniwn arnoch i fod yn ofalus i beidio gadael iddyn nhw grwydro. Mae pryder wedi ei fynegi am blant "free-range" sydd yn mynd braidd hyn agos at flaen y balconi.

Cyfarfod y Pwyllgor Gofal
yn y capel Gorffennaf 17eg am 2:30 p.m.

CASGLU DILLAD

Diolch yn fawr i bawb gyfrannodd mor hael at y casgliad i ddilladu plant bach mewn gwersylloedd ffoaduriaid. Mae'r dillad eisoes ar eu ffordd i Wlad Groeg. Mae'r hanes yn llawn, ynghyd â lluniau, ar wefan y capel. Byddwn yn dechrau casglu dillad gaeaf ym mis Medi, a dillad haf eto yn y gwanwyn. Bydd y casgliad i helpu teuluoedd lleol mewn argyfwng yn dechrau pan fydd John Llew yn clywed gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mehefin 26
Geraint Rees gydag Ann Griffiths yn llywyddu
Gorffennaf 3 ydd
Y Parch Gethin Rhys gyda Gwerfyl Morse. Taflen gan Gwerfyl, sgrin gan Huw Rees
Gorffennaf 10fed
Sul y Cyfundeb ym Mhenarth
Gorffennaf 17
Sul i'r Teulu, gyda picnic/gemau yn y parc i ddilyn